

Megan Angharad Hunter

Ble cawsoch chi eich geni a'ch magu?

Geni yng Nghaerdydd a magu ym Mhenygroes, Dyffryn Nantlle.

Ble aethoch chi i'r ysgol?

Ysgol Bro Llew (cynradd) ac Ysgol Dyffryn Nantlle (uwchradd).

Beth roeddech chi'n ei hoffi neu'n ei gasáu am yr ysgol?

Ro'n i'n mwynhau Eisteddfod Ysgol Dyffryn Nantlle yn ofnadwy, a'r ymdeimlad o gymuned mewn ysgol mor fach. Ro'n i'n casáu gwersi ymarfer corff a'r ciw cinio! Yn yr ysgol gynradd, roeddwn i'n mwynhau'r cyfle i ddysgu rhywbeth newydd bob dydd, y tripiâu (Glan-Ilyn ac ati), a chwarae ar yr iard ar ddiwrnodau braf, ond yn casáu diwrnod mabolgampau – roedd yn well gen i eistedd yn y dosbarth yn darllen!

Beth oeddech chi eisiau bod ar ôl tyfu fyny?

Awdur!

Pa un oedd eich hoff lyfr yn blentyn?

Gormod i enwi un, ond yn yr ysgol gynradd mi oeddwn i wrth fy modd efo'r gyfres Warrior Cats, Harry Potter a llyfrau Michael Morpurgo.

Beth yw eich diddordebau?

Darllen, pobî, ffilmiau, treulio amser efo anifeiliaid, cerdded yn y mynyddoedd, cerddoriaeth (gwrando a chwarae – fflwt, sacsoffon, piano, gitâr).

Beth sy'n eich gwneud chi'n hapus?

Bwyd, mwy o fwyd, sgwennu, chwerthin efo ffrindiau a theulu a llenwi fy nyddiau efo'r celfyddydau.

Beth sy'n eich gwylltio chi?

Y newyddion a phob math o anghyfiawnder.

Pryd ddechreuoch chi feddwl am ysgrifennu?

Pan wnes i ddechrau darllen er mwyn pleser ar fy mhen fy hun ... felly pan o'n i tua 4 oed!



O ble rydych chi'n cael eich syniadau?

Pobol – mae'r rhan fwyaf o'm syniadau'n dod o'r cymeriadau, ac yn datblygu wrth i mi feddwl amdany'n nhw.

Oes yna themâu/pynciau arbennig sy'n apelio atoch?

Iechyd meddwl, y cymunedau LHDTTC+ ac anabl (dwi'n aelod o'r ddwy gymuned), cyfeillgarwch a'r celfyddydau.

Oes gennych chi gyngor i rywun sy'n trio ysgrifennu?

Os wyt ti'n mwynhau sgwennu, jyst sgwenna – dwi'n addo i chdi y bydd rhywun arall yn mwynhau darllen dy waith os wyt ti'n mwynhau'r broses o sgwennu'r gwaith hwnnw. A meddylia am dy hoff lyfrau ... beth wyt ti'n ei hoffi amdanyn nhw? Be sy'n eu gwneud nhw'n llyfrau mor dda? Tria efelychu'r elfennau hynny yn dy waith dy hun.

Beth yw'r peth gorau/gwaethaf am fod yn awdur?

Y peth gorau ydi'r broses o ddod i nabod y cymeriadau a'r wefr o fethu stopio sgwennu tan oria mân y bore. Mae cael ymateb gan ddarllenwyr hefyd yn beth arbennig. Y peth gwaethaf am fod yn awdur ydi'r unigrwydd – ti fel arfer yn gweithio ar dy ben dy hun. Dwi hefyd wastad yn ansicr am fy ngwaith ... dwi byth yn gwybod os ydi o'n dda neu beidio nes bod rhywun dwi'n drystio wedi darllen y gwaith a rhannu'i farn efo fi.

Cwestiynau Cyflym**Hoff lyfr o'ch plentyndod?**

Cyfes Harry Potter.

Hoff gymeriad o lyfr?

Lyra o *His Dark Materials* a *The Book of Dust*.

Hoff le?

Mynyddoedd Eryri, siopau llyfrau a sinema canolfan Chapter yng Nghaerdydd.

Hoff fwyd?

Aaaa ... amhosib dewis! Dwi'n hoff iawn o fwyd Eidalaidd, Thai, Fietnamaidd ... ac unrhyw beth siocled!

Hoff ffilm/rhaglen deledu?

Eto, CWBL amhosib dewis! Ond fy hoff ffilmiau llynedd oedd *Barbie*, *Past Lives* a *Bones and All*.

Hoff air?

Bendigedig.

Superpower o ddewis?

Troi'n anweledig.

Hoff rwydwaith cyfryngau cymdeithasol?

Dwi erioed wedi bod yn 'hoff' o gyfryngau cymdeithasol, a bod yn onest!

Beth sy'n gwneud i chi wenu?

Unrhyw beth! *Voice note* gan ffrind, bwyd da, darganfod cân newydd, bore braf.

Swydd tasech chi dim yn awdur? Swydd ddelfrydol?

Meddyg neu gerddor.

Top tip i ddarpar awduron:

Os wyt ti'n mwynhau sgwennu, jyst sgwenna. Dwi'n addo i chdi y bydd rhywun arall yn mwynhau darllen dy waith os wyt ti'n mwynhau'r broses o'i sgwennu. A meddylia am dy hoff lyfrau ... beth wyt ti'n ei hoffi amdanyn nhw? Be sy'n eu gwneud nhw'n llyfrau mor dda? Tria efelychu'r elfennau hynny yn dy waith dy hun.

